Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Cyllid**

# Craffu ar Ail Gyllideb Atodol Llywodraeth Cymru 2020-21

Tachwedd 2020




www.senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**www.senedd.cymru/SeneddCyllid**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Y Pwyllgor Cyllid**
**Senedd Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddCyllid@senedd.cymru**
Twitter: **@SeneddCyllid**

**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2020**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Cyllid**

# Craffu ar Ail Gyllideb Atodol Llywodraeth Cymru 2020-21

Tachwedd 2020

www.senedd.cymru

# Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 22 Mehefin 2016. Ceir ei gylch gwaith yn: www.senedd.cymru/SeneddCyllid

## Cadeirydd y Pwyllgor:



**Llyr Gruffydd AS**
Plaid Cymru

## Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



**Alun Davies AS**
Llafur Cymru



**Siân Gwenllian AS**
Plaid Cymru



**Mike Hedges AS**
Llafur Cymru



**Rhianon Passmore AS**
Llafur Cymru



**Nick Ramsay AS**
Ceidwadwyr Cymreig



**Mark Reckless AS***
Annibynnol

*Etholwyd Mark Reckless i'r Pwyllgor Cyllid fel aelod o Blaid Brexit tan 16.10.2020. Yna cafodd ei ethol i'r Pwyllgor Cyllid ar 4.11.2020 fel Aelod Annibynnol.

# Cynnwys

**Casgliadau ac argymhellion** .......... 5

**1. Yr Ail Gyllideb Atodol** .......... 7

**2. Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol** .......... 14

**3. Llywodraeth Leol** .......... 19

**4. Yr Economi a Busnes** .......... 23

**5. Hyblygrwydd o ran cyllid** .......... 26

**6. Cyllid yn y dyfodol** .......... 30

**7. Cyllideb 2021-22** .......... 36

# Casgliadau ac argymhellion

**Argymhelliad 1.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried sut gall ddarparu gwybodaeth gyfredol am ei hymrwymiadau gwariant mewn perthynas â'r pandemig, yn ogystal â darparu tryloywder ynghylch y cyllid sydd ar gael iddi a'r cyllid canlyniadol y mae'n ei dderbyn. ........ Tudalen 13

**Argymhelliad 2.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn darparu dadansoddiad o gostau datgomisiynu ysbytai maes, gan gynnwys lle mae cyllid ar gyfer y gweithgaredd hwnnw'n dod o fewn cyhoeddiadau y rhoddir cyfrif amdanynt naill ai yng Nghyllideb Atodol Gyntaf neu Ail Gyllideb Atodol 2020-21. ........ Tudalen 18

**Argymhelliad 3.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn darparu dadansoddiad o'r £1.3 biliwn a ddarperir i sefydliadau'r GIG ar gyfer COVID-19 ac yn cyhoeddi dadansoddiad o'r costau manwl sy'n gysylltiedig â'r pecyn sefydlogi. ........ Tudalen 18

**Argymhelliad 4.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y drydedd gyllideb atodol yn darparu rhagor o fanylion am unrhyw gyllid dilynol ar gyfer Profi, Olrhain a Diogelu, yn enwedig yr elfen diogelu yn y strategaeth. ........ Tudalen 18

**Argymhelliad 5.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn darparu dadansoddiad o'r cyllid a hawliwyd gan bob awdurdod lleol yn erbyn y cyllid mae Llywodraeth Cymru wedi ei ddarparu, yn y gyllideb atodol nesaf. ........ Tudalen 22

**Argymhelliad 6.** Mewn perthynas â chymorth ariannol i ddarparwyr trafnidiaeth, mae'r Pwyllgor yn argymell bod gwybodaeth ychwanegol yn cael ei chyhoeddi sy'n manylu ar lefel y cyllid mae darparwyr trafnidiaeth wedi ei gyrchu hyd yma, yn ogystal ag unrhyw wybodaeth bellach am ddisgwyliadau Llywodraeth Cymru am gyllid pellach yn y maes hwn yn 2020-21. ........ Tudalen 25

**Argymhelliad 7.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd yn parhau i ddadlau'n gryf dros y mater hwn, ar y cyd â gweinyddiaethau datganoledig eraill, er mwyn llacio'r terfynau benthyca blynyddol a'r gallu i dynnu arian o gronfa wrth gefn Cymru. ........ Tudalen 29

**Argymhelliad 8.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn darparu gwybodaeth bellach am sut mae ei chronfeydd wrth gefn wedi eu 'clustnodi' – ar y lleiaf, yr hyn a ddyrannwyd i gronfa wrth gefn COVID-19 a'r hyn sydd ar gael ar gyfer diwedd cyfnod pontio'r Undeb Ewropeaidd. ........ Tudalen 35

**Argymhelliad 9.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd yn rhoi diweddariad i'r Pwyllgor ar ei ohebiaeth â Changhellor Trysorlys y Deyrnas Unedig ynghylch ei ofynion o ran materion yr Undeb Ewropeaidd. ............ Tudalen 35

**Argymhelliad 10.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gweithio ar frys i ymgysylltu â Llywodraeth y Deyrnas Unedig a llywodraethau datganoledig eraill i gael manylion am y Gronfa Ffyniant Gyffredin a chyhoeddi'r manylion hynny............ Tudalen 35

**Argymhelliad 11.** Er gwaethaf y materion posibl sy'n codi o'r adolygiad gwariant, mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gweithio i ddarparu eglurder i randdeiliaid ynghylch cyllidebau y tu hwnt i flwyddyn, yn ei chyllideb ddrafft ar gyfer 2021-22............ Tudalen 37

**Casgliad 1.** Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r tryloywder a roddir i'r Senedd wrth gyflwyno'r Gyllideb Atodol ychwanegol hon, ac mae o'r farn y dylai'r dull o gyflwyno cyllidebau atodol ychwanegol mewn blynyddoedd anghyffredin barhau. ............ Tudalen 13

**Casgliad 2.** Mae'r Pwyllgor yn siomedig ynglŷn â'r bwriad i gyhoeddi Cyllideb ddrafft 2021-22 yn hwyr. Mae hyn yn golygu y bydd amser ar gyfer craffu yn gyfyngedig, ac mae hyn yn arbennig o siomedig o ystyried mai hon yw cyllideb derfynol tymor y Senedd hon ac y bydd yn ymdrin ag effaith y pandemig a chyfnod pontio'r Undeb Ewropeaidd. ............ Tudalen 37

**Casgliad 3.** Mae'r Pwyllgor yn pryderu y bydd y sefydliadau hynny a gyllidir gan Lywodraeth Cymru, ac sy'n darparu gwasanaethau sy'n hanfodol i'r ymateb i'r pandemig, yn cael syniad tymor byr yn unig ynghylch eu cyllid yng Nghyllideb ddrafft 2021-22. Mae'r Pwyllgor o'r farn y dylai Llywodraeth Cymru ddefnyddio'r holl wybodaeth sydd ar gael er mwyn darparu sicrwydd hirdymor. ............ Tudalen 37

# 1. Yr Ail Gyllideb Atodol

**1.** Ar 6 Hydref 2020, cyhoeddodd y Gweinidog Cyllid a Trefnydd (y Gweinidog) ei bod hi'n bwriadu cyflwyno Cyllideb Atodol. Yn y Cyfarfod Llawn, disgrifiodd y Gweinidog bwrpas y Gyllideb Atodol Dros Dro fel a ganlyn:

> "…[c]yfle inni gau pen y mwdwl o ran y cyllid yr ydym ni eisoes wedi'i wario yn ymateb i COVID, er mwyn i'r gyllideb atodol, y byddwn i fel arfer yn ei chyflwyno ym mis Chwefror, ganolbwyntio mwy ar yr ymdrech ailadeiladu."[1]

**2.** Mae Ail Gyllideb Atodol 2020-21 (y Gyllideb Atodol) yn cwmpasu cyfnod o bedwar mis ers y Gyllideb Atodol Gyntaf. Nid yw'n adlewyrchu'r newidiadau yng nghyfrifoldebau portffolio Gweinidogol y Cabinet a wnaed ar 13 Hydref 2020.

**3.** Mae'r Gyllideb Atodol yn dyrannu dros £1.5 biliwn. Mae hefyd yn nodi dros £1.0 biliwn o gyllid ychwanegol heb ei ddyrannu. Yn y Nodyn Esboniadol sy'n cyd-fynd â'r gyllideb atodol manylir bod hyn yn cynyddu cyfanswm y gyllideb ar gyfer 2020-21 i £24.9 biliwn.

**4.** Rhoddodd y Gweinidog dystiolaeth i'r Pwyllgor Cyllid (y Pwyllgor) ar y Gyllideb Atodol hon ddydd Llun 2 Tachwedd 2020.

**5.** Esboniodd y Gweinidog ei bod hi wedi cyflwyno'r gyllideb atodol hon oherwydd 'amgylchiadau cwbl eithriadol pandemig y coronafeirws'.[2] Dywedodd y Gweinidog fod y Gyllideb Atodol;

> "…pulls together many of the announcements that have been made since I published the first supplementary budget … to ensure that the Senedd is fully up to date and content with the funding decisions that have been made"[3]

**6.** Esboniodd y Gweinidog hefyd ochr ymarferol y Gyllideb Atodol, o ran awdurdodi cynlluniau gwariant a galluogi tynnu arian o Gronfa Gyfunol Cymru.[4]

**7.** Amlinellodd y Gweinidog hefyd mai Llywodraeth Cymru oedd 'yr unig ran o'r Deyrnas Unedig' a oedd wedi cyhoeddi cyllideb atodol yn y modd hwn.[5]

---

[1] Y Cyfarfod Llawn, Cofnod y Trafodion, 6 Hydref 2020, paragraff 272

[2] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod Drafft y Trafodion, 2 Tachwedd 2020, paragraff 113

[3] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod Drafft y Trafodion, 2 Tachwedd 2020, paragraff 114

[4] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod Drafft y Trafodion, 2 Tachwedd 2020, paragraff 114

## Dyraniadau


**8.** Esboniodd y Gweinidog yn y Cyfarfod Llawn bod Llywodraeth Cymru, ar y pwynt hwnnw, "wedi dyrannu bron i £4 biliwn mewn ymateb i effaith y pandemig".[6] Mae'r Gyllideb Atodol yn dyrannu £1.5 biliwn ychwanegol i adrannau (Prif Grwpiau Gwariant neu 'MEGs') ar ben yr hyn a ddyrannwyd yng Nghyllideb Atodol Gyntaf 2020-21, sy'n gynnydd o 6.9 y cant.

**9.** O'i gymharu â Chyllideb Derfynol 2020-21, mae cyfanswm y dyraniadau i adrannau Llywodraeth Cymru yn cynyddu o £19.9 biliwn i £23.5 biliwn, cynnydd o 18.3 y cant. Mae Ffigur 1 yn cynnwys y prif ffigurau o'r Gyllideb Atodol hon, gan ddangos arian a symudodd ers Cyllideb Atodol Gyntaf 2020-21.

[5] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod Drafft y Trafodion, 2 Tachwedd 2020, paragraff 114

[6] Y Cyfarfod Llawn, Cofnod y Trafodion, 6 Hydref 2020, paragraff 250

**Ffigur 1: Ail Gyllideb Atodol Llywodraeth Cymru 2020-21 - Trosolwg**[7]



[8]

[7] Llywodraeth Cymru, Ail Gyllideb Atodol 2020-21 a chyfrifiadau Gwasanaeth Ymchwil y Senedd

[8] Noder: Mae ffigurau yn yr ffeithlun ar gyfer MEGs yn eithrio AME ac felly mae'n bosibl na fyddant yn gyson â ffigurau eraill a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn.

**10.** Mae nifer o symudiadau mewn dyraniadau cyfalaf, gan gynnwys codiadau o £33 miliwn a £30 miliwn i'r MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a'r MEG Tai a Llywodraeth Leol yn y drefn honno. Mae'r rhain yn cael eu gwrthbwyso gan ostyngiadau mewn meysydd eraill, gan gynnwys dyraniadau cyfalaf yr Economi a Thrafnidiaeth, sydd wedi gostwng £68.2 miliwn.

**11.** Nodir yn y Nodyn Esboniadol bod adnoddau heb eu dyrannu wedi cynyddu dros £1 biliwn. Cyllid refeniw yw hwn yn bennaf ond mae'n cynnwys £22.3 miliwn o arian cyfalaf ychwanegol a £668,000 o Gyfalaf Trafodion Ariannol. Cyfanswm cronfeydd wrth gefn Llywodraeth Cymru yn dilyn y Gyllideb Atodol hon yw £1.6 biliwn.

## Cyllido

**12.** Mae'r adnoddau sydd ar gael i Lywodraeth Cymru yn cynyddu £2.5 biliwn. Mae'r llinell sylfaen adnoddau cyllidol gyffredinol yn cynyddu £2.7 biliwn, gan gynnwys:

- £918.1 miliwn mewn perthynas â chyhoeddiadau gwariant COVID-19 yn Lloegr;
- £12.5 miliwn mewn perthynas â Diweddariad Economaidd yr Haf;
- £1.2 biliwn mewn perthynas â'r warant gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig a gyhoeddwyd ar 23 Gorffennaf 2020;
- £400 miliwn mewn perthynas â'r warant bellach gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig a gyhoeddwyd ar 9 Hydref 2020;
- £127.7 miliwn yn ymwneud ag adolygiad amcangyfrifedig yn yr Addasiad Grant Bloc ar gyfer Treth Dir y Dreth Stamp.[9]

**13.** Amcangyfrifir y bydd refeniw o'r Dreth Trafodiadau Tir yn gostwng £122.2 miliwn oherwydd y newid dros dro i gyfraddau a throthwy'r Dreth Trafodiadau Tir a diwygiadau i'r senario COVID-19 canolog a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol.

**14.** Mae'r llinell sylfaen gyfalaf gyffredinol wedi cynyddu £5.6 miliwn ac mae disgwyl i Gyfalaf Trafodion Ariannol gynyddu £668,000 o ganlyniad i gyllid canlyniadol Llywodraeth y Deyrnas Unedig.

[9] Llywodraeth Cymru, Ail Gyllideb Atodol 2020-21, Nodyn Esboniadol, Hydref 2020

## Cyllid Canlyniadol Llywodraeth y Deyrnas Unedig

**15.** Wrth ymateb i'r warant o £1.2 biliwn gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig ym mis Gorffennaf 2020, dywedodd y Gweinidog bod £675 miliwn o'r cyllid yn ymwneud â chyfarpar diogelu personol a chyllid pwysau'r gaeaf a gyhoeddwyd yn barod. Aeth y Gweinidog yn ei blaen i ddweud:

> "…rhaid imi bwysleisio mai cyfran yn unig o hyn sy'n arian gwirioneddol newydd. Mae'n bell iawn o'r hyn y bydd ei angen ar Gymru i wrthdroi'r niwed hirdymor a achosir gan y pandemig."[10]

**16.** Yn y Cyfarfod Llawn ar 6 Hydref 2020, dywedodd y Gweinidog fod "ansicrwydd o hyd" ynghylch lefel y cyllid y bydd Llywodraeth Cymru yn ei dderbyn eleni, gan nodi y bu nifer o gyhoeddiadau yn ymwneud â Lloegr ers Gorffennaf 2020 lle'r oedd y goblygiadau i Gymru yn aneglur. Aeth y Gweinidog ymlaen i ddweud:

> "Rydym yn disgwyl, yn gwbl briodol, ein cyfran deg o gyhoeddiadau cyllid newydd gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig, ond nid oes gennym ni ffordd o farnu ar hyn o bryd a ydym yn ei gael ai peidio."[11]

**17.** Gan gyfeirio at y 'gwarant' o gyllid i Gymru, eglurodd y Gweinidog nad oedd digon o dryloywder o ran yr hyn y mae'r cyllid a ddyrannwyd i Gymru yn ymwneud ag ef o ran gwariant Llywodraeth y Deyrnas Unedig, ond roedd hi'n disgwyl manylion yn fuan ynghylch cyllid ychwanegol a ddaw i Gymru o ganlyniad i benderfyniad Llywodraeth y Deyrnas Unedig i gyflwyno mis o gyfyngiadau symud.[12]

**18.** Esboniodd y Gweinidog, er bod y warant yn rhywbeth i'w groesawu, bod materion ychwanegol yn codi yn ei sgil, yn yr ystyr 'pryd bynnag y bydd cyhoeddiad yn cael ei wneud ar ôl cyhoeddi'r warant, yna gofynnir y cwestiwn: 'A yw hynny wedi ei gynnwys yn y warant ynteu a yw hynny yn ychwanegol at y warant?''.[13]

---

[10] Llywodraeth Cymru: Y Gweinidog Cyllid yn ymateb i gyhoeddiad cyllid Llywodraeth y DU, 24 Gorffennaf 2020

[11] Cofnod y Trafodion, 6 Hydref 2020, paragraff 255

[12] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod Drafft y Trafodion, 2 Tachwedd 2020, paragraff 142

[13] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod Drafft y Trafodion, 2 Tachwedd 2020, paragraff 195

**19.** Cydnabu'r Gweinidog fod y Trysorlys wedi 'ceisio ein helpu ni drwy ddarparu ychydig mwy o sicrwydd'[14] a chydnabuwyd bod y warant wedi galluogi Llywodraeth Cymru i roi mwy o sicrwydd i fyrddau iechyd ac awdurdodau lleol. Ychwanegodd y Gweinidog, er bod y warant 'yn well nag aros am gyhoeddiadau unigol gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig … mae rhai gwelliannau i'w gwneud o hyd.' Fodd bynnag, roedd y Gweinidog o'r farn bod y warant yn 'broblem well'.[15]

**20.** Wrth fynd i'r afael â maes a barodd bryder i'r Pwyllgor yn flaenorol, sef ymgysylltu â Llywodraeth y Deyrnas Unedig[16], nododd y Gweinidog fod hyn wedi gwella a bod cyfarfodydd pedairochrog rhwng Gweinidogion Cyllid wedi cael eu cynnal yn amlach.[17]

**21.** Pan ofynnwyd iddi a oes gan Lywodraeth Cymru yr arian sydd ei angen arni i ymateb i COVID-19, dywedodd y Gweinidog ei bod yn 'anodd iawn pennu ffigur go iawn' o ran yr hyn yr oedd ei angen, ond y gallai Llywodraeth Cymru ddefnyddio cyllid ychwanegol gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig ar gyfer yr argyfwng yn uniongyrchol a'r adferiad.[18]

## Safbwynt y Pwyllgor

**22.** Mae'r Pwyllgor yn nodi bod y Gyllideb Atodol hon yn anarferol o ran ei hamseriadau. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn croesawu'r tryloywder a roddir i'r Senedd wrth gyflwyno'r Gyllideb Atodol ychwanegol hon.

**23.** Mae'r Pwyllgor yn nodi'r symiau sylweddol sy'n cael eu rhoi ar waith gan Lywodraeth Cymru. Mae cyhoeddi Cyllideb Atodol ychwanegol yn cynorthwyo dealltwriaeth o'r cyllid sydd ar gael i Lywodraeth Cymru a sut mae'r cyllid hwnnw'n cael ei ddefnyddio. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor hefyd yn awyddus i Lywodraeth Cymru ddarparu cymaint â phosibl o wybodaeth amser real ar ei gwariant a'r cyllid sydd ar gael iddi. Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r warant gyllido a ddarparwyd gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn cydnabod bod diffyg eglurder o hyd o ran cyllid canlyniadol pan fydd Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn gwneud cyhoeddiadau newydd. Yn benodol, pa un ai a yw'r rhain yn ychwanegol at, neu o fewn, gwarant Llywodraeth y Deyrnas Unedig. Dywedodd y Gweinidog y disgwylir rhagor o wybodaeth am hyn mewn perthynas â'r cyhoeddiadau diweddaraf, yn enwedig yng ngoleuni'r cyfnod o gyfyngiadau

---

[14] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod Drafft y Trafodion, 2 Tachwedd 2020, paragraff 195

[15] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod Drafft y Trafodion, 2 Tachwedd 2020, paragraff 199

[16] Y Pwyllgor Cyllid, Craffu ar Gyllideb Atodol Gyntaf Llywodraeth Cymru 2020-21, Mehefin 2020

[17] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod Drafft y Trafodion, 2 Tachwedd 2020, paragraff 191

[18] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod Drafft y Trafodion, 7 Tachwedd 2019, paragraffau 117 ac 118

symud yn Lloegr, a byddai'r Pwyllgor yn croesawu diweddariad ar hyn pan ddarperir gwybodaeth. Mae'r Pwyllgor yn nodi'r farn bod y sefyllfa bresennol yn 'broblem well'.

**24.** Mae'r Pwyllgor wedi tynnu sylw at dryloywder cyhoeddiadau ynghylch cyllid yn y gorffennol.[19] [20] Wrth nodi'r materion a amlygwyd gan Lywodraeth Cymru o ran nodi cyllid canlyniadol posibl o fewn cyhoeddiadau Llywodraeth y Deyrnas Unedig, byddai'r Pwyllgor hefyd yn gofyn i Lywodraeth Cymru fod yn benodol glir pan fydd yn gwneud cyhoeddiadau cyllid, pa un ai a yw'r cyllid hwnnw'n 'newydd' ynteu'n ymwneud â chyllid a gyhoeddwyd yn flaenorol.

**25.** Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r ymagwedd a gymerwyd gyda gwarant Llywodraeth y Deyrnas Unedig ac yn cydnabod bod hyn yn gam ymlaen, er ei fod yn peri ei broblemau ei hun. Ni lwyddodd y Gweinidog i ddarparu manylion sylweddol ynghylch faint o arian mae Llywodraeth Cymru yn tybio sydd ei angen i ddelio â'r pandemig a'r adferiad. Gan gydnabod bod hon yn sefyllfa anodd, mae'n siomedig nad yw'r Gweinidog yn gallu darparu rhagor o fanylion am y symiau yr amcangyfrifir y bydd eu hangen i ymateb i'r pandemig, ac mae o'r farn y byddai'n fuddiol pe bai Llywodraeth Cymru yn gallu darparu neges gref a chlir ynghylch y cymorth sydd ei angen ym marn y Llywodraeth.

**26.** Mae'r Pwyllgor yn dawel ei feddwl bod amlder cyfarfodydd pedairochrog y Gweinidogion Cyllid wedi gwella, ond mae'n amlwg y gallai'r ymgysylltu rhwng y Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y Deyrnas Unedig wella ymhellach.

**Casgliad 1.** Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r tryloywder a roddir i'r Senedd wrth gyflwyno'r Gyllideb Atodol ychwanegol hon, ac mae o'r farn y dylai'r dull o gyflwyno cyllidebau atodol ychwanegol mewn blynyddoedd anghyffredin barhau.

**Argymhelliad 1.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried sut gall ddarparu gwybodaeth gyfredol am ei hymrwymiadau gwariant mewn perthynas â'r pandemig, yn ogystal â darparu tryloywder ynghylch y cyllid sydd ar gael iddi a'r cyllid canlyniadol y mae'n ei dderbyn.

---

[19] Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid at yr Ysgrifennydd Gwladol, Covid-19: Cymorth i Gymru, 24 Medi 2020

[20] Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid at y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, Covid-19: Cymorth i Gymru, 24 Medi 2020

# 2. Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

**27.** Cynyddodd Cyllideb Atodol Gyntaf 2020-21 Llywodraeth Cymru y dyraniadau i'r MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol £481.2 miliwn o'i gymharu â'r Gyllideb Derfynol.

**28.** Yn y Gyllideb Atodol hon mae dyraniadau i'r MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn cynyddu i £10.3 biliwn – cynnydd o £901.5 miliwn (9.5 y cant) o'i gymharu â'r Gyllideb Atodol Gyntaf. O'r £901.5 miliwn hwn, nodwyd £800 miliwn ar gyfer 'pecyn sefydlogi' ar gyfer sefydliadau'r GIG, a ddyluniwyd i:

> "…baratoi ar gyfer yr heriau a ragwelir yn ystod y gaeaf – ymateb i ail don bosibl o'r feirws ochr yn ochr â phwysau arferol y gaeaf – wrth barhau i gynyddu mynediad at wasanaethau hanfodol."[21]

**29.** Roedd y cyhoeddiad, ym mis Awst 2020, yn datgan bod hyn yn "cymryd cyfanswm y cymorth COVID-19 gan Lywodraeth Cymru i sefydliadau'r GIG i dros £1.3bn" ac y byddai'r 'pecyn sefydlogi' yn cael ei ddefnyddio ar gyfer cyfarpar diogelu personol a'r ymgyrch ffliw.

**30.** Gofynnwyd i'r Gweinidog roi manylion ychwanegol am nodau'r pecyn sefydlogi:

> "In terms of what the funding will do, it will support the organisations in a range of ways. For example, we're working actively with the health service to better understand the requirements for PPE. That's really important work that is going on at the moment, and we need to ensure that we have a reliable supply of PPE for primary care providers, as well as those in hospitals and social services and so on. So, that's an ongoing piece of work at the moment to better understand what might need to be allocated there. We're allocating £371 million to health boards to help them develop their winter plans, including additional capacity, and we've also set aside £30 million to support the transformation of the urgent and emergency health and care system. And in addition I've mentioned the cost of PPE, but, of course, we've allocated over £11 million for further investment in rolling out the flu

[21] Llywodraeth Cymru, Cyllideb Atodol 2020-21, Nodyn Esboniadol, Hydref 2020

> vaccine programme, which will be the largest programme that we've ever rolled out in relation to that as well." [22]

**31.** Aeth y Gweinidog ymlaen i ddweud:

> "In terms of the specific funding, as the picture becomes clearer, in terms of the discussions that we're having with the health boards, I'd be happy to ask the health Minister to provide a more detailed breakdown as we do come to a conclusion on those discussions about PPE and so on."[23]

## Sefyllfa ariannol Byrddau Iechyd Lleol

**32.** Nododd y Pwyllgor, yn ei bapurau i gyfarfodydd y Bwrdd ym mis Medi 2020, fod byrddau iechyd lleol yng Nghymru wedi nodi diffyg rhagolwg cyfanredol o bron i £450.0 miliwn ar gyfer 2020-21.

**33.** Dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor:

> "In terms of the health boards, the Welsh Government confirmed funding arrangements for the NHS organisations for the remainder of the year in the quarter 3 and 4 operating framework, and that was published on 24 September. So, as a consequence, the only deficits now being forecast by NHS organisations are being reported by Betsi Cadwaladr, Hywel Dda and Swansea Bay health boards, and they're in relation to their pre-COVID planned positions."[24]

**34.** Yn ddiweddarach, dywedodd y swyddog a ddaeth i'r pwyllgor gyda'r Gweinidog:

> "…the funding allocated to health boards is kind of in line with what their forecast spend is for this year. Who knows what's coming up over the next few months, but as far as we're able to, we're covering the costs that they're expecting to incur."[25]

[22] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod Drafft y Trafodion, 2 Tachwedd 2020, paragraffau 138 ac 139

[23] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod Drafft y Trafodion, 2 Tachwedd 2020, paragraffau 138 ac 139

[24] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod Drafft y Trafodion, 2 Tachwedd 2020, paragraff 144

[25] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod Drafft y Trafodion, 2 Tachwedd 2020, paragraff 155

## Profi, Olrhain, Diogelu

**35.** Neilltuodd y Gyllideb Atodol Gyntaf £57.0 miliwn ar gyfer Strategaeth 'Profi Olrhain Diogelu' Llywodraeth Cymru. Dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor fod y dyraniad yn 'gost gychwynnol' ac yn ymwneud â 'sawl agwedd ar y prosiect profi, olrhain a diogelu hwnnw'[26]. Mae Cyfarwyddwr Cyffredinol y Grŵp Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus wedi dweud bod y £57.0 miliwn ar gyfer 'elfen brawf Profi, Olrhain a Diogelu'.[27]

**36.** Yn ei adroddiad ar y Gyllideb Atodol Gyntaf, cytunodd y Pwyllgor fod angen cyllid ychwanegol i ategu Strategaeth Profi Olrhain Diogelu Llywodraeth Cymru, ac argymhellodd y dylid darparu gwybodaeth ychwanegol mewn perthynas â'r strategaeth. Gofynnwyd yn Argymhelliad 12 adroddiad y Pwyllgor y dylid darparu gwybodaeth am yr hyn a gyflawnir gyda'r cyllid a'r dangosyddion perfformiad allweddol a ddefnyddir i fesur effeithiolrwydd gwariant cysylltiedig, o ran y cyfalaf sydd ei angen i sefydlu'r rhaglen a'i chostau cynnal dros y misoedd nesaf.

**37.** Cadarnhawyd yn ymateb Llywodraeth Cymru bod £45.0 miliwn ar gael i fyrddau iechyd ac awdurdodau lleol i dalu cost gweithredu'r gwaith olrhain cysylltiadau. Roedd yr ymateb hefyd yn nodi gwybodaeth am y Dangosyddion Perfformiad Allweddol ar gyfer profi ac olrhain cysylltiadau.

**38.** Wrth roi manylion ychwanegol am y Strategaeth Profi Olrhain Diogelu, dywedodd y Gweinidog ei bod hi o'r farn bod y system, er ei bod o dan lawer o bwysau, wedi bod yn llwyddiannus, gan fanylu:

> "…in the previous supplementary budget there was £57 million attached to the test element of that, but what we have now in this second supplementary budget is £45 million available in this financial year to health boards and local authorities to cover the workforce costs of the tracing element of it. And in terms of what we expect for that, it's sufficient to support a total contact tracing workforce of up to 1,800 people, with capacity to investigate over 1,000 new positive cases every day. So, that's what we expect as a result of that, and I think that we can all recognise that, to date, it's performed very well."[28]

---

[26] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod Drafft y Trafodion, 4 Mehefin 2020, paragraff 118
[27] Tracey Burke, Llythyr i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 14 Gorffennaf 2020
[28] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod Drafft y Trafodion, 2 Tachwedd 2020, paragraff 159

**39.** Dywedodd y Gweinidog fod £1 miliwn wedi ei neilltuo ar gyfer cronfa caledi awdurdodau lleol ar gyfer 'diogelu', ac y byddai rhagor o gymorth yn cael ei ddarparu pe bai angen.[29] Ymdrinnir â'r gronfa caledi ymhellach ym mhennod 3.

## Ysbyty Calon y Ddraig

**40.** Yng nghyhoeddiad Llywodraeth Cymru ynghylch y 'pecyn sefydlogi' nodwyd y bydd y cyllid hefyd yn "helpu byrddau iechyd i sicrhau bod ganddynt ddigon o gapasiti", gan gynnwys drwy ysbytai maes, os bydd angen.

**41.** Mae'r Gyllideb Atodol yn sicrhau bod £33.0 miliwn ar gael ar gyfer cyfleuster COVID-19 newydd yng Nghaerdydd a'r Fro, fel y cyhoeddwyd ar 14 Medi 2020. Mae hyn yn dilyn datgomisiynu Ysbyty Calon y Ddraig yn Stadiwm Principality. Nodir yn y Gyllideb Atodol bod £25.0 miliwn wedi ei newid o refeniw i gyfalaf i ategu hyn.

**42.** Yn ei adroddiad ar y Gyllideb Atodol Gyntaf, mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru, ar ôl i'r amcangyfrifon gael eu llunio, ddarparu gwybodaeth am gostau datgomisiynu'r holl ysbytai maes (argymhelliad 11).

**43.** Yn ei hymateb, adroddodd Llywodraeth Cymru fod gwaith yn parhau ar lefel costau digomisiynu, ac mae amcangyfrifon yn cael eu datblygu gan gyrff y GIG ar y cyd â pherchnogion safleoedd a chontractwyr. Dywedodd:

> "Bydd amcangyfrifon wedi'i diweddaru ar gael erbyn mis Medi 2020. Serch hynny, bydd dealltwriaeth fanylach o gostau alldro terfynol y datgomisiynu yn dibynnu ar am ba hyd yr oeddent mewn defnydd, cyflwr y safleoedd pan fyddant yn cael eu rhoi yn ôl ac union gwmpas y gwaith angenrheidiol i'w hadfer i'r safonau blaenorol."[30]

**44.** O ran datgomisiynu ysbytai maes, cadarnhaodd y Gweinidog y byddai'r costau hyn yn cael eu talu o £166 miliwn a ddyrannwyd ar gyfer ysbytai maes yn y Gyllideb Atodol Gyntaf. Fodd bynnag, mewn tystiolaeth a ddarparwyd yn ystod y gwaith craffu ar y Gyllideb Atodol Gyntaf, dywedwyd bod datgomisiynu ysbyty Calon y Ddraig (Stadiwm Principality) yn dod o dan y £166 miliwn ond, "other field hospitals haven't been part of that envelope as yet".[31]

[29] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod Drafft y Trafodion, 2 Tachwedd 2020, paragraff 160

[30] Ymateb Llywodraeth Cymru: Adroddiad y Pwyllgor Cyllid, Craffu ar Gyllideb Atodol Gyntaf Llywodraeth Cymru 2020-21, Mehefin 2020

[31] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 4 Mehefin 2020, paragraff 112

## Safbwynt y Pwyllgor

**45.** Mae'r Pwyllgor yn cydnabod bod cyllid ychwanegol sylweddol yn cael ei fuddsoddi yn y MEG iechyd, ac mae'n croesawu cadarnhad bod Llywodraeth Cymru wedi cytuno ar drefniadau cyllido'r byrddau iechyd lleol ar gyfer 2020-21. Fodd bynnag, byddai'n ddefnyddiol a hefyd yn cynorthwyo tryloywder pe darperir dadansoddiad o'r £1.3 biliwn mae Llywodraeth Cymru wedi ei ddyrannu ar gyfer sefydliadau'r GIG ar gyfer COVID-19. Dylai hyn gynnwys dadansoddiad manylach o'r £800 miliwn a ddyrannwyd ar gyfer 'pecyn sefydlogi', yn ogystal â gwybodaeth am yr hyn y bwriedir ei gyflawni. Cytunodd y Gweinidog i ofyn i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ddarparu gwybodaeth ychwanegol am y pecyn hwn, ac mae'r Pwyllgor yn edrych ymlaen at dderbyn yr wybodaeth hon.

**46.** Mae'r Pwyllgor yn cydnabod bod cyllid wedi ei ddarparu i ategu'r strategaeth Profi Olrhain Diogelu, a barn y Gweinidog fod y strategaeth yn perfformio'n dda. Fodd bynnag, prin yw'r manylion a ddarperir ar elfen ddiogelu'r strategaeth, a byddai'r Pwyllgor yn gobeithio gweld hyn yn cael sylw yn y gyllideb atodol nesaf.

**47.** Byddai'r Pwyllgor yn croesawu gwybodaeth ychwanegol am y cyllid datgomisiynu ar gyfer ysbytai maes, er mwyn egluro a yw'r £166 miliwn a ddarperir yn y Gyllideb Atodol Gyntaf yn cynnwys datgomisiynu'r holl ysbytai maes ynteu dim ond ysbyty Calon y Ddraig.

**Argymhelliad 2.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn darparu dadansoddiad o gostau datgomisiynu ysbytai maes, gan gynnwys lle mae cyllid ar gyfer y gweithgaredd hwnnw'n dod o fewn cyhoeddiadau y rhoddir cyfrif amdanynt naill ai yng Nghyllideb Atodol Gyntaf neu Ail Gyllideb Atodol 2020-21.

**Argymhelliad 3.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn darparu dadansoddiad o'r £1.3 biliwn a ddarperir i sefydliadau'r GIG ar gyfer COVID-19 ac yn cyhoeddi dadansoddiad o'r costau manwl sy'n gysylltiedig â'r pecyn sefydlogi.

**Argymhelliad 4.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y drydedd gyllideb atodol yn darparu rhagor o fanylion am unrhyw gyllid dilynol ar gyfer Profi, Olrhain a Diogelu, yn enwedig yr elfen diogelu yn y strategaeth.

# 3. Llywodraeth Leol

**48.** Disgwylir i ddyraniadau i'r MEG Tai a Llywodraeth Leol gynyddu i £6.4 biliwn, sef cynnydd o £348.9 miliwn.

**49.** Ar 17 Awst 2020, cyhoeddodd y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol £264 miliwn o gyllid ychwanegol i awdurdodau lleol. Disgwylir i'r cyllid hwn gael ei weinyddu drwy'r Gronfa Cymorth Ariannol Brys Llywodraeth Leol (y cyfeirir ati hefyd fel Cronfa Caledi'r Awdurdodau Lleol) ac mae hynny yn ychwanegol at y cyllid blaenorol a oedd ar gael, gan gynnwys £188.5 miliwn a ddyrannwyd yn y Gyllideb Atodol Gyntaf.

**50.** Mae cyfanswm y dyraniadau i Gronfa Galedi'r Awdurdodau Lleol yn cynyddu £306.6 miliwn yn y Gyllideb, yn ychwanegol at y £264 miliwn mae hyn yn cynnwys:

- £27.4 miliwn ar gyfer y sector gofal cymdeithasol i oedolion, yn cynnwys £22.7 miliwn ar gyfer darparwyr gofal cymdeithasol i oedolion a £4.6 miliwn i 'adlewyrchu'r costau gwirioneddol' sy'n codi yn ychwanegol at y £40 miliwn o gymorth a nodwyd yn y Gyllideb Atodol Gyntaf.
- £15 miliwn i ategu 'elfen gyffredinol' y gronfa.

**51.** Mae'r cyllid ar gyfer MEG Llywodraeth Leol hefyd yn cynnwys cyllid arall, fel £2.9 miliwn i adlewyrchu effaith COVID-19 ar geisiadau ar gyfer cynllun lleihau'r dreth gyngor a refeniw treth gyngor yn ystod chwarter cyntaf 2020-21.

**52.** Ar 6 Hydref 2020, rhoddodd y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol ragor o fanylion am yr arian a ddarparwyd (gan gynnwys yr hyn a fanylir yn y Gyllideb Atodol Gyntaf):

> "Rydym ni wedi darparu bron i £500 miliwn o gyllid ychwanegol i lywodraeth leol drwy gronfa galedi ar gyfer awdurdodau lleol. Mae hynny'n cynnwys £292 miliwn i roi cymorth ariannol cyffredinol i awdurdodau lleol i'w helpu i dalu baich y costau ychwanegol y maent yn ei wynebu o ganlyniad i bandemig y coronafeirws; £78 miliwn yn lle'r incwm a gollwyd gan awdurdodau lleol o ganlyniad i'r pandemig — mae llawer yn cynnal gwasanaethau megis arlwyo, meysydd parcio, canolfannau hamdden, gwasanaethau diwylliannol ac ati, sydd wedi cael eu taro'n galed, felly mae hynny i'w helpu gyda'r golled honno o ran incwm; £62 miliwn i gefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau gofal cymdeithasol, oherwydd gwyddom am y pwysau ychwanegol y maent yn ei wynebu o ganlyniad, unwaith eto, i'r pandemig; £38 miliwn

> ar gyfer prydau ysgol am ddim; a £10 miliwn o gyllid ychwanegol i gefnogi pobl ddigartref gyda'r nod penodol o sicrhau nad oes neb yn cysgu ar y stryd yn ystod y pandemig."[32]

**53.** Mae dyraniadau eraill hefyd i lywodraeth leol, y tu allan i'r gronfa, gan gynnwys £9.5 miliwn o refeniw a £30 miliwn o gyfalaf o fewn y Cynllun Digartrefedd Cam 2, sy'n werth £50 miliwn.

**54.** Manylodd y Gweinidog fod y £264.2 miliwn wedi ei ddyrannu i gymorth parhaus i awdurdodau lleol a'i fod yn cwmpasu "additional costs, loss of income and the general financial position of local authorities, but what it doesn't do is cover the cost for council tax collection rates or the council tax reduction scheme."[33]

**55.** Gan ymhelaethu ar gymorth i awdurdodau lleol, dywedodd y Gweinidog fod cyllid ychwanegol wedi ei ddarparu i awdurdodau lleol mewn perthynas â chyfraddau treth gyngor.[34] Aeth y Gweinidog yn ei blaen i ddweud:

> "The funding has boosted the overall support to local authorities now to £0.5 billion, and that works on a claims basis. So, it's monthly for additional costs and quarterly for loss of income. I know officials are working very closely with the WLGA and local authorities themselves to understand the additional financial pressures that they're facing."[35]

**56.** Trafododd y Gweinidog hefyd yr effaith y gall y pandemig ei chael ar gyfraddau annomestig:

> "…in terms of the tax base issues, one area of particular concern to us is around non-domestic rates and the impact that COVID has had on non-domestic rates both this year, but also potential impacts in future years as well. So, there's a quite in-depth piece of work going on with local government to better understand the impacts of COVID on the non-domestic rates tax base, let alone, of course, the impact that Brexit might also have on that as well. So, as I say, that piece of work is currently ongoing."[36]

[32] Y Cyfarfod Llawn, Cofnod y Trafodion, 6 Hydref 2020, paragraff 286
[33] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod Drafft y Trafodion, 2 Tachwedd 2020, paragraff 172
[34] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod Drafft y Trafodion, 2 Tachwedd 2020, paragraff 172
[35] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod Drafft y Trafodion, 2 Tachwedd 2020, paragraff 173
[36] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod Drafft y Trafodion, 2 Tachwedd 2020, paragraff 252

## Cynaliadwyedd Ariannol Llywodraeth Leol

**57.** Yn dilyn y cyhoeddiad am gyllid ychwanegol ar gyfer Cronfa Galedi'r Awdurdodau Lleol ym mis Awst 2020, awgrymodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru bod y dyraniadau ychwanegol yn "gyfraniad sylweddol". Nododd y Gymdeithas y byddai'n cyfarfod â'r Gweinidog a'r Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol, drwy'r Is-grŵp Cyllid, i drafod y cyllid a'r broses ar gyfer hawlio'r cyllid hwn.

**58.** Ar 6 Hydref 2020, cyhoeddodd Archwilio Cymru ddadansoddiad dan y teitl 'Cynaliadwyedd Ariannol Llywodraeth Leol o Ganlyniad i Bandemig COVID-19'. Dywed Archwilio Cymru:

> "Yn ystod chwe mis cyntaf eleni, mae cynghorau Cymru'n dweud eu bod wedi wynebu costau o tua £325 miliwn oherwydd y pandemig (£160 miliwn yn sgil colli incwm a £165 miliwn yn sgil gwariant ychwanegol). Mae Llywodraeth Cymru wedi sicrhau bod bron i £500 miliwn o arian ychwanegol ar gael i gynghorau drwy'r gronfa caledi llywodraeth leol yn ogystal â sicrhau bod rhywfaint o arian arall ar gael…"[37]

**59.** Dywedodd y Gweinidog fod cymorth cyffredinol i awdurdodau lleol wedi cael 'hwb' i gyrraedd cyfanswm o £0.5 biliwn a bod swyddogion yn 'gweithio'n agos iawn gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a'r awdurdodau lleol eu hunain i ddeall y pwysau ariannol ychwanegol maen nhw'n eu hwynebu.'[38]

### Safbwynt y Pwyllgor

**60.** Mae'r Gyllideb Atodol yn dyrannu dros £300 miliwn yn rhagor i Gronfa Galedi'r Awdurdodau Lleol. Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r cyllid ychwanegol a ddarperir i awdurdodau lleol, ac mae'n falch ei bod yn ymddangos bod Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu'n dda ag awdurdodau lleol. Fodd bynnag, gallai cyflwyno'r arian hwn mewn Cyllidebau Atodol fod wedi bod yn fwy tryloyw, gan ei bod yn amlwg bod Cronfa Galedi'r Awdurdodau Lleol yn cyflawni nifer o ddibenion amrywiol.

**61.** Mae'r Pwyllgor yn nodi bod llawer o'r cyllid i awdurdodau lleol yn cael ei ddarparu ar sail hawliadau. Byddai'n ddefnyddiol cael dadansoddiad cynhwysfawr o'r cyllid sy'n cael ei ddarparu a sut aed ati i bennu'r symiau hynny. Yn ogystal,

[37] Archwilio Cymru: A all Cymru ymdopi ag effaith ariannol y pandemig ar lywodraeth leol? 6 Hydref 2020

[38] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod Drafft y Trafodion, 2 Tachwedd 2020, paragraff 173

byddai'n ddefnyddiol pe bai Cyllidebau Atodol neu gyhoeddiadau eraill Llywodraeth Cymru yn dangos faint o arian sydd wedi ei hawlio gan awdurdodau lleol, a'r cyfnodau disgwyliedig y bydd y cyllid hwn yn eu cwmpasu.

**Argymhelliad 5.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn darparu dadansoddiad o'r cyllid a hawliwyd gan bob awdurdod lleol yn erbyn y cyllid mae Llywodraeth Cymru wedi ei ddarparu, yn y gyllideb atodol nesaf.

# 4. Yr Economi a Busnes

**62.** Disgwylir i ddyraniadau i MEG yr Economi a Thrafnidiaeth gynyddu £130.5 miliwn. Roedd y MEG hwn yn un o'r meysydd allweddol a dderbyniodd ragor o arian o dan y Gyllideb Atodol Gyntaf, gyda chynnydd o £1.3 biliwn bron yn dyblu'r dyraniad a bennwyd yng Nghyllideb Derfynol 2020-21, ac a oedd yn gysylltiedig yn bennaf â chymorth i fusnesau.

## Trafnidiaeth

**63.** Mae mwyafrif y cynnydd mewn cyllid yn gynnydd o £113.0 miliwn i sicrhau bod gwasanaethau trenau yn parhau i weithredu ar rwydwaith Cymru a'r Gororau ar gyfer gweithwyr allweddol ac eraill sy'n dibynnu ar deithio ar drenau. Dyrannwyd £94.7 miliwn yn ychwanegol i gynorthwyo gwasanaethau bysiau.

**64.** Mae cynnydd yn cael ei wrthbwyso'n rhannol gan ostyngiad o £68.2 miliwn mewn cyfalaf ac mae £36.7 miliwn wedi ei newid o refeniw i'r gronfa Gyfalaf Gyffredinol wrth gefn i hwyluso newid o gyfalaf i refeniw i gynorthwyo gwasanaethau bysiau.

**65.** Ar 20 Hydref 2020, fe wnaeth Dirprwy Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth ddatganiad ynglŷn â'r cyllid ar gyfer bysiau, gan nodi y byddai'n "anodd cynnal" cymorth i wasanaethau bysiau ar y lefel a welwyd hyd yma eleni. Aeth ymlaen i ddweud bod y fframwaith deddfwriaethol yn parhau i fod yn rhwystr i gyflawni system drafnidiaeth gydgysylltiedig ond nad oedd bellach yn bosibl cyflwyno deddfwriaeth i newid hyn yn ystod y Senedd hon.

**66.** Ar 22 Hydref 2020, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y byddai'n cymryd y fasnachfraint reilffordd o dan reolaeth gyhoeddus.

**67.** Rhoddodd y Gweinidog fanylion ychwanegol am y cyllid ar gyfer trafnidiaeth

> "In terms of rail, the funding is in line with the emergency measures agreement, where Welsh Government's taken on cost risk from the rail services delivery partner, KeolisAmey, which of course is trading as Transport for Wales Rail Services. That support is effectively Welsh Government meeting the cost of operations, less any income streams being realised. And, of course, income streams have been decimated as a result of the pandemic. And then for bus support, the funding's available to all operators of scheduled bus services in Wales, and that's allocated through local authorities, based on local need and local

> requirements. For example, they'll take into account the need for school bus services and so on."[39]

**68.** Dywedodd y Gweinidog fod gwaith yn cael ei wneud i sicrhau 'modelau cymorth sy'n addas at y diben ac yn gynaliadwy wrth edrych tua'r dyfodol', ond roedd o'r farn y bydd cymorth ariannol i wasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus yn 'sylweddol iawn yn y blynyddoedd i ddod'.[40]

### Trosglwyddiadau o'r Gronfa Cadernid Economaidd

**69.** Trosglwyddwyd £39.7 miliwn o'r Gronfa Cadernid Economaidd, a ddyrannwyd yn y Gyllideb Atodol Gyntaf, i gyllido gweithgareddau amrywiol sy'n darparu cyngor a chymorth i unrhyw un dros 16 oed o ran gwaith ac addysg, gan gynnwys:

- £8.5 miliwn i'r MEG Addysg ar gyfer cynlluniau amrywiol, gan gynnwys y Rhaglen Cyfrif Dysgu Personol;
- £500,000 i'r MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer gwasanaethau Cymorth Gwaith a Di-waith; a
- £30.7 miliwn o fewn MEG yr Economi a Thrafnidiaeth.

**70.** Manylodd y Gweinidog fod cyllid a ailddyrannwyd o'r gronfa cadernid economaidd 'yn canolbwyntio'n benodol ar fesurau sy'n ategu'r gwaith o sefydlogi'r farchnad gyflogaeth a chynorthwyo Cymru i fynd i'r afael â'r cynnydd mewn diweithdra a'r anghydraddoldeb economaidd sy'n dyfnhau'. Dywedodd y Gweinidog fod 'y cyllid yno yn unol i raddau helaeth â'r hyn rydyn ni'n ceisio ei gyflawni drwy'r gronfa cadernid economaidd, ond roedd yn casglu math gwahanol o becyn i fynd i'r afael â'r materion o ongl wahanol.'[41]

## Safbwynt y Pwyllgor

**71.** Mae'r Pwyllgor yn derbyn esboniad y Gweinidog ynghylch trosglwyddo cyllid wedi ei ailddyrannu o'r Gronfa Cadernid Economaidd. Mae'n amlwg bod y gronfa'n parhau i fod yn rhan allweddol o ymateb Llywodraeth Cymru i'r pandemig, a bydd y Pwyllgor yn parhau i gymryd diddordeb yn y cyllid sydd ar gael.

---

[39] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod Drafft y Trafodion, 2 Tachwedd 2020, paragraff 183

[40] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod Drafft y Trafodion, 2 Tachwedd 2020, paragraff 185

[41] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod Drafft y Trafodion, 2 Tachwedd 2020, paragraff 187

**72.** Mae'r Pwyllgor yn cydnabod bod y pandemig wedi cael effaith sylweddol ar drafnidiaeth gyhoeddus ac yn cydnabod bod cymorth yn cael ei darparu i weithredwyr. Dywedodd y Gweinidog fod gwaith yn cael ei wneud ar fodelau cymorth cynaliadwy hirdymor ar gyfer y sector, gan gydnabod y byddai angen darparu cymorth yn y tymor hwy i weithredwyr. Mae'n amlwg bod y pandemig yn debygol o gael effaith ar drafnidiaeth gyhoeddus am gryn amser, ac mae'r cymorth hirdymor sydd ar gael i'r sector o ddiddordeb i'r Pwyllgor. Mae gan y Pwyllgor ddiddordeb arbennig yn hyn o ystyried cyhoeddiad Llywodraeth Cymru mewn perthynas â rheilffyrdd ym mis Hydref 2020.

**73.** Mae'r Pwyllgor yn cydnabod bod cymorth i weithredwyr bysiau yn cael ei ddarparu drwy awdurdodau lleol. Mae hefyd yn nodi sylwadau'r Gweinidog ynglŷn â'r cymorth tymor hwy i weithredwyr, a bod cymorth yn debygol o fod yn 'sylweddol iawn yn y blynyddoedd a ddaw'. O ystyried hyn, byddai'r Pwyllgor yn croesawu manylion pellach ar ba gyfran o weithredwyr sydd wedi cyrchu'r cyllid a, maes o law, diweddariad ar y model cymorth tymor hwy ac arwydd o faint o gyllid y gallai fod angen i Lywodraeth Cymru ei roi ar waith yn y maes hwn.

**Argymhelliad 6.** Mewn perthynas â chymorth ariannol i ddarparwyr trafnidiaeth, mae'r Pwyllgor yn argymell bod gwybodaeth ychwanegol yn cael ei chyhoeddi sy'n manylu ar lefel y cyllid mae darparwyr trafnidiaeth wedi ei gyrchu hyd yma, yn ogystal ag unrhyw wybodaeth bellach am ddisgwyliadau Llywodraeth Cymru am gyllid pellach yn y maes hwn yn 2020-21.

# 5. Hyblygrwydd o ran cyllid

**74.** Yn dilyn gwaith craffu ar y Gyllideb Atodol Gyntaf, fe wnaeth y Pwyllgor nifer o argymhellion (1, 2, 3, 6 a 7) yn ymwneud â chyllid Llywodraeth Cymru, gan gynnwys ei bod yn:

- Monitro ac archwilio a yw cyllid canlyniadol a geir drwy fformiwla Barnett yn adlewyrchu anghenion Cymru, ac os felly, cadarnhau opsiynau cyllido amgen gyda Llywodraeth y Deyrnas Unedig;
- Mynnu cael gwybodaeth fwy prydlon am gyhoeddiadau Llywodraeth y Deyrnas Unedig sy'n effeithio ar drigolion a/neu fusnesau Cymru; a
- Diweddaru'r Pwyllgor ar drafodaethau ynghylch hyblygrwydd cynyddol mewn benthyca a chronfeydd wrth gefn, a hefyd eu cais i newid cyllid cyfalaf i gyllid refeniw.[42]

**75.** Mewn ymateb i'r warant o £1.2 biliwn a ddarparwyd gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig ym mis Gorffennaf 2020, amlinellodd y Gweinidog nad oedd y Trysorlys wedi cytuno â chais Llywodraeth Cymru i gael mynediad at gyfran fwy o Gronfa Wrth Gefn Cymru eleni. Aeth y Gweinidog ymlaen i nodi bod y Trysorlys:

> "…wedi colli cyfle i roi inni'r hyblygrwydd cyllidebol mawr ei angen, a fyddai'n ein galluogi i reoli peth o bwysau'r coronafeirws ein hunain, o fewn ein cyllidebau ein hunain."[43]

**76.** Yn ystod ei datganiad (6 Hydref 2020), galwodd y Gweinidog am hyblygrwydd newydd mewn tair prif ffordd:

> "(1) y gallu, os oes ei angen arnom, i orwario eleni, hyd at derfyn y gallwn gytuno â Llywodraeth y DU;
>
> (2) y gallu i gario mwy ymlaen yng nghronfa wrth gefn Cymru ar ddiwedd y flwyddyn ariannol; a
>
> (3) gwell mynediad at yr adnoddau yng nghronfa wrth gefn Cymru yn 2021-22 ar gyfer refeniw a chyfalaf."[44]

---

[42] Y Pwyllgor Cyllid: Craffu ar Gyllideb Atodol Gyntaf Llywodraeth Cymru 2020-21, Mehefin 2020

[43] Llywodraeth Cymru: Y Gweinidog Cyllid yn ymateb i gyhoeddiad cyllid Llywodraeth y Deyrnas Unedig, 24 Gorffennaf 2020

[44] Cofnod y Trafodion, 6 Hydref 2020, paragraff 256

**77.** Pan ofynnwyd iddi sut mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio ei hysgogiadau cyllidol ei hun i ymateb i COVID-19, dywedodd y Gweinidog:

> "I would say that there are several tools that we have. One, of course, is tax-raising powers, but others are those that relate to the management of Welsh Government budgets and resources. So, the tools that we would like to be able to use better are our Wales reserve, for example. We've been increasing the Wales reserve in order to allow us to draw down additional funding when it's needed, but, of course, the rules that surround that mean that we can't draw down as much, perhaps, as we would want to. Equally, other tools that we have would be around borrowing, and, again, we're limited in how much we are able to borrow."[45]

**78.** Yn benodol mewn perthynas â threthi, roedd y Gweinidog o'r farn nad oedd yn amser priodol i godi trethi yn ystod dirwasgiad, yn enwedig gan y byddai cynnydd o 1c yn y dreth incwm yng Nghymru 'ddim ond yn codi £200 miliwn… sy'n gyfraniad bach' at yr adnoddau sydd eu hangen i ymateb i'r coronafeirws.[46]

**79.** Wrth roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor ar drafodaethau â Phrif Ysgrifennydd y Trysorlys, cadarnhaodd y Gweinidog fod ceisiadau am ragor o hyblygrwydd o ran mynediad at gronfa wrth gefn Cymru wedi cael eu gwrthod. Y cyfiawnhad a roddwyd dros y penderfyniad hwn oedd bod Llywodraeth y Deyrnas Unedig bellach wedi gwarantu cyllid ychwanegol.[47]

**80.** O ran mynediad at gronfa wrth gefn Cymru, roedd y Gweinidog o'r farn bod angen hyblygrwydd o hyd:

> "I think it's really important that we retain larger flexibility to draw down more if we need to, but also potentially to carry more over into the next financial year, because clearly we don't know where we're going to be in the spring, and managing the budget is quite difficult in the sense that you're planning for a wide range of scenarios, and I think that it would help us a great deal if we were able to plan on that basis, with the confidence that we could carry more over to next year without

[45] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod Drafft y Trafodion, 2 Tachwedd 2020, paragraff 122
[46] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod Drafft y Trafodion, 2 Tachwedd 2020, paragraff 123
[47] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod Drafft y Trafodion, 2 Tachwedd 2020, paragraff 126

> having to find ourselves in a position that nobody wants to be in in terms of returning money to the Treasury."[48]

**81.** Aeth y Gweinidog ymlaen i ddweud bod angen rhagor o hyblygrwydd o hyd, a fyddai'n:

> "…help us a great deal in terms of managing our budget, because we have to land our budget on a tiny, tiny postage stamp every year, and that in itself is a feat, but doing it in a year like this, when we don't actually know what's next for the path of the virus, and so on, is particularly difficult. And that's before, of course, we factor Brexit into the situation as well, which puts another level of complexity and uncertainty in there."[49]

**82.** Dywedodd y Gweinidog nad yw Llywodraeth Cymru bellach yn ceisio'r hyblygrwydd i newid cyllid cyfalaf a chyllid refeniw, ond ei bod erbyn hyn yn ceisio:

- Gwell mynediad at y gronfa wrth gefn o ran refeniw a chyfalaf
- Y gallu i gario mwy ymlaen yn y gronfa wrth gefn ar ddiwedd y flwyddyn ariannol os oes angen, a'r
- Gallu i dynnu rhagor o gronfa wrth gefn Cymru na'r terfyn blynyddol eleni (pe bai'r ymateb i'r pandemig yn golygu bod hynny'n ofynnol).[50]

## Safbwynt y Pwyllgor

**83.** Yn dilyn argymhellion blaenorol y Pwyllgor, mae Aelodau wedi eu calonogi o glywed bod cyfarfodydd pedairochrog yn cael eu cynnal yn amlach rhwng y Gweinidogion Cyllid, ond mae lle o hyd i welliannau o ran tryloywder, yn enwedig fel bod Llywodraeth Cymru yn glir ynghylch sut mae cyhoeddiadau cyllido yn gysylltiedig â'r ymrwymiad gwarant cyllid.

**84.** Yn gynharach eleni, cefnogodd y Pwyllgor geisiadau'r Gweinidog am hyblygrwydd yn ei adroddiad ar y Gyllideb Atodol Gyntaf, yn enwedig mewn perthynas â llacio terfynau blynyddol benthyca a chronfa wrth gefn Cymru. O ystyried yr amgylchiadau presennol, a'r ansicrwydd ynghylch y pandemig, cred y Pwyllgor y byddai'n ddoeth i Lywodraeth Cymru gael rhagor o hyblygrwydd o ran

[48] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod Drafft y Trafodion, 2 Tachwedd 2020, paragraff 126
[49] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod Drafft y Trafodion, 2 Tachwedd 2020, paragraff 205
[50] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod Drafft y Trafodion, 2 Tachwedd 2020, paragraff 207

rheoli ei chyllid diwedd blwyddyn, ac ni all weld y rheswm pam y gwrthododd y Trysorlys wneud hyn mewn amgylchiadau mor eithriadol.

**85.** Mae'r Pwyllgor yn nodi nad yw Llywodraeth Cymru yn ceisio newid cyllid refeniw i gyllid cyfalaf erbyn hyn, ac mae'n cydnabod bod negodi gwarant Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi lliniaru'r angen am hyn.

**86.** Heb os, bu eleni yn flwyddyn eithriadol o ran cyhoeddiadau cyllido ac amlder a maint y cyllid canlyniadol sydd ar gael i Lywodraeth Cymru. Gan hynny, mae'r Pwyllgor yn synnu nad oedd y Trysorlys am ystyried caniatáu hyblygrwydd yr un mor eithriadol wrth reoli'r cronfeydd hyn. Yn amlwg, ni fydd y pandemig yn cadw at y rheolau ynghylch blynyddoedd ariannol, a dylai'r Trysorlys fod yn galluogi Llywodraeth Cymru i fod mor ystwyth ag sy'n ofynnol yn ei hymateb. Mae'n amlwg bod y diffyg sicrwydd hirdymor ynghylch cyllid gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig a'r anhyblygrwydd ynghylch cyllido diwedd blwyddyn yn golygu bod Llywodraeth Cymru yn gorfod wynebu'r perygl o naill ai fod â diffyg cyllid i ddelio â senarios achos gwaethaf neu fethu â chario cyllid drosodd a allai fod heb ei ddyrannu ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

**Argymhelliad 7.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd yn parhau i ddadlau'n gryf dros y mater hwn, ar y cyd â gweinyddiaethau datganoledig eraill, er mwyn llacio'r terfynau benthyca blynyddol a'r gallu i dynnu arian o gronfa wrth gefn Cymru.

# 6. Cyllid yn y dyfodol

## Adduned ôl-COVID

**87.** Ar 6 Hydref, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru 'addewid ar ôl Covid' gwerth £320 miliwn, a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r papur 'Ail-greu ar ôl COVID-19 - yr Heriau a'r Blaenoriaethau' gan Lywodraeth Cymru.

**88.** Dywedodd y Gweinidog fod y £320 miliwn yn ffigwr pennawd ac y byddai Gweinidogion unigol yn gwneud cyhoeddiadau ar faterion sydd o fewn eu portffolios. Fel yr amlinellodd y Gweinidog, "credwn ein bod ar ben uchaf y warant honno o £4 biliwn, ond rydym yn ceisio eglurder ychwanegol ar hynny gan Lywodraeth y DU".[51]

**89.** Dywedodd y Gweinidog y bydd y gronfa hon yn rhan o'r Gyllideb Atodol nesaf.[52]

## Cymorth economaidd yn ystod y 'cyfnod atal byr'

**90.** Roedd cyhoeddi 'cyfnod atal byr' (19 Hydref 2020) yng Nghymru yn cynnwys manylion am "bron i £300 miliwn" o gymorth i fusnesau. Nod y cyllid hwn oedd 'ategu' cynlluniau cymorth cyflog sydd ar gael gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig.

**91.** Roedd y cymorth a gyhoeddwyd yn ystod y 'cyfnod atal byr' yn cynnwys:

- 'Dyblu' y rownd ddiweddaraf o Gyllid Cadernid Economaidd (sydd i fod i gynyddu £140 miliwn, gyda £150 miliwn yn rhagor o gynnydd).
- Taliadau o £1,000 i fusnesau sy'n gymwys am y cymorth ardrethi i fusnesau bach â gwerth ardrethol o £12,000 neu lai.
- Taliadau o hyd at £5,000 i fusnesau adwerthu, lletygarwch a hamdden sy'n gorfod cau ac sydd â gwerth ardrethol o rhwng £12,001 a £50,000.
- Grant chwyddo dewisol o £2,000 i fusnesau sydd wedi gorfod cau dros y cyfnod atal byr neu y bydd y cyfnod atal wedi cael effaith faterol arnynt.

[51] Cofnod y Trafodion, 6 Hydref 2020, paragraff 271

[52] Cofnod y Trafodion, 6 Hydref 2020, paragraff 272

- Grant dewisol arall o £1,000 i fusnesau y cafodd y cyfyngiadau lleol effaith faterol arnynt am 21 niwrnod neu fwy cyn dechrau'r cyfnod atal byr.

**92.** Roedd cyhoeddiad Llywodraeth Cymru yn cynnwys £20 miliwn arall tuag at grantiau busnes, gyda'r cadarnhad y byddai Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid 100 y cant yn ystod y cyfnod atal byr i fusnesau a oedd yn cael eu gorfodi i gau.

## Ffyrlo a'r Cynllun Cymorth Swyddi

**93.** Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi, o ran cymorth â chyflogau gweithwyr, y bydd busnesau ac unigolion yn parhau i allu cyrchu'r cynlluniau sydd ar gael. Hyd at 31 Hydref 2020, roedd hyn yn golygu cynllun ffyrlo Llywodraeth y Deyrnas Unedig (y Cynllun Cadw Swyddi) ac o 1 Tachwedd 2020 roedd hwn i fod i ddatblygu i fod yn Gynllun Cefnogi Swyddi newydd uwch.

**94.** Ysgrifennodd y Prif Weinidog at Ganghellor Trysorlys y Deyrnas Unedig (y Canghellor) ar 20 Hydref 2020 yn gofyn am newid y meini prawf cymhwyso ar gyfer y Cynllun Cadw Swyddi. Gofynnodd y Prif Weinidog am gael gwared ar y gofyniad bod yn rhaid i weithwyr sy'n hawlio dan y Cynllun Cadw Swyddi fod wedi bod ar ffyrlo am o leiaf dair wythnos cyn 30 Mehefin 2020.[53]

**95.** Amlinellodd Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth (20 Medi 2020) bod Llywodraeth Cymru wedi gofyn i Lywodraeth y Deyrnas Unedig gyflwyno'r Cynllun Cefnogi Swyddi yn gynt, fel na fyddai'n rhaid i fusnesau gyrchu dau gynllun. Awgrymodd y Gweinidog fod Llywodraeth Cymru wedi 'cynnig gwneud iawn am y gwahaniaeth' rhwng y cyllid o dan y ddau gynllun. Nododd y Gweinidog nad oedd yn gwybod faint o bobl a allai gael eu heffeithio gan y mater hwn, gan nodi bod data perthnasol gan Gyllid a Thollau EM ac nad oedd yn cael ei rannu â Llywodraeth Cymru.

**96.** Ar 5 Tachwedd 2020, cyhoeddodd y Canghellor estyniad pum mis i'r cynllun ffyrlo hyd ddiwedd mis Mawrth 2021, gyda gweithwyr yn derbyn 80 y cant o'u cyflog cyfredol am oriau nad oeddent yn gallu eu gweithio. Yn yr un modd, bydd cymorth i filiynau yn rhagor o weithwyr drwy'r Cynllun Cymorth Incwm Hunangyflogaeth yn cael ei gynyddu, gyda'r trydydd grant yn cwmpasu Tachwedd 2020 i Ionawr 2021 yn 80 y cant o'r elw masnachu cyfartalog, hyd at uchafswm o £7,500.

[53] Leader Live: UK Government repeatedly 'turning down' First Minister's solutions for job support, 20 Hydref 2020

## Cyfnod pontio'r Undeb Ewropeaidd

**97.** Mae'r Gweinidog wedi amlinellu i'r Senedd fod ansicrwydd ynghylch ymagwedd Llywodraeth y Deyrnas Unedig at ddiwedd cyfnod pontio'r Undeb Ewropeaidd. Nododd y Gweinidog:

> "Rydym yn parhau i bwyso ar Lywodraeth y DU am fwy o eglurder ynghylch sut y bydd yn cyflawni addewidion na fydd Cymru'n waeth ei byd o ganlyniad i Brexit ac y caiff datganoli ei barchu'n llawn. Bydd cronfeydd newydd yn rhan annatod o'n hadferiad, felly rhaid datganoli eu darpariaeth yn llawn fel y gallwn eu targedu i ddiwallu anghenion penodol pobl, cymunedau a busnesau yng Nghymru."[54]

**98.** Aeth y Gweinidog ymlaen i drafod Bil Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig (y Bil), gan awgrymu ei fod yn tanseilio ymdrechion cyfredol ac yn ymgais i "hawlio grym a'r ras i'r gwaelod"[55]. Mewn stori newyddion am Lywodraeth y Deyrnas Unedig ar ôl cyhoeddi'r Bil (9 Medi 2020) nodwyd fod y cynigion yn rhoi'r modd i gyflawni Cronfa Ffyniant Gyffredin y Deyrnas Unedig.

**99.** Ym mis Medi 2018 cyhoeddodd y Pwyllgor adroddiad ar Y Paratoadau ar gyfer disodli ffrydiau cyllido'r Undeb Ewropeaidd yng Nghymru. Cododd yr adroddiad hwn bryderon ynghylch y diffyg ymgysylltu rhwng Llywodraeth y Deyrnas Unedig a Llywodraeth Cymru ar ddisodli cyllid ar gyfer Cymru ar ôl Brexit a'r diffyg gwybodaeth sydd ar gael ynghylch sut byddai cyllid yn cael ei ddyrannu i weinyddiaethau datganoledig.

**100.** Mae Pwyllgor Dethol Materion Cymreig Tŷ'r Cyffredin wedi cyhoeddi adroddiad dan y teitl 'Wales and the Shared Prosperity Fund: Priorities for the replacement of EU Structural funding' (2 Hydref 2020). Dywedir:

> "Despite announcing the Shared Prosperity Fund more than three years ago, the Government appears to have made negligible progress in developing its replacement for European Structural and Investment funding."[56]

[54] Cofnod y Trafodion, 6 Hydref 2020, paragraff 258

[55] Cofnod y Trafodion, 6 Hydref 2020, paragraff 259

[56] Wales and the Shared Prosperity Fund: Priorities for the replacement of EU Structural funding

**101.** Pan ofynnwyd iddi am yr wybodaeth ddiweddaraf am y Gronfa Ffyniant Gyffredin, dywedodd y Gweinidog, "We've had next to no engagement, it's fair to say, in terms of the shared prosperity fund."[57]

**102.** Wrth roi'r wybodaeth ddiweddaraf am baratoadau ar gyfer Brexit, dywedodd y Gweinidog, yn ychwanegol at y gronfa bontio Ewropeaidd sy'n werth £50 miliwn:

> "…we've also recently written to the Chancellor setting out our asks in terms of EU matters. So, for example, we need to have more engagement with the UK Government on the future of European funding, and what happens in terms of the shared prosperity fund and so on—big questions about farm funding—".[58]

**103.** Pan ofynnwyd iddi pa gyllid oedd ar gael ar gyfer diwedd cyfnod pontio'r Undeb Ewropeaidd, atebodd y Gweinidog:

> "I have earmarked some funding in our normal reserve, so not the COVID reserve, but the regular reserve, in relation to ports and border issues, and I think that will be important as we move through the end of the year as well. … I think that this is going to be a longer term issue for us as well. But, as I said, I've allocated some funding—or earmarked, I should say, some funding—for border issues."[59]

**104.** Dywedodd y Gweinidog y byddai effeithiau negyddol Brexit yn debygol o fod yn fater tymor hwy.[60]

## Cyllid heb ei ddyrannu

**105.** Gofynnwyd i'r Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gyllid heb ei ddyrannu. Dywedodd:

> "When I say that £1.6 billion is unallocated, it's unallocated for the purposes of reflecting the second supplementary budget. But actually, since then, a number of decisions have been taken that impact on our current position. So, for example, of the £1.6 billion unallocated, £924 million is held in the reserve created for the pandemic response, and of

[57] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod Drafft y Trafodion, 2 Tachwedd 2020, paragraff 210
[58] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod Drafft y Trafodion, 2 Tachwedd 2020, paragraff 253
[59] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod Drafft y Trafodion, 2 Tachwedd 2020, paragraff 256
[60] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod Drafft y Trafodion, 2 Tachwedd 2020, paragraff 265

> that, we have now committed £240 million, including funding for the firebreak, and that relates to some of those announcements relating to support for business."[61]

**106.** Cadarnhaodd y Gweinidog hefyd fod cyllid ychwanegol ar gael pe bai cyfnod atal byr arall, gan gynnwys £300 miliwn i gynorthwyo busnesau os oedd angen[62], ac y bydd manylion am unrhyw gyllid ychwanegol yn y Drydedd Gyllideb Atodol.[63]

**107.** Fodd bynnag, wrth drafod y manylion ynghylch sut gellir dyrannu'r cyllid heb ei ddyrannu hwnnw, dywedodd y Gweinidog:

> "Well, as I say, I've earmarked significant amounts of funding for various things, but until I've had the discussions with colleagues and until colleagues have signed off funding and so on—. I don't necessarily want to say too much before having had those discussions with colleagues."[64]

**108.** Dywedodd y Gweinidog y byddai'r Drydedd Gyllideb Atodol yn rhoi cyfle i graffu ar benderfyniadau ynghylch y cyllid hwnnw.[65]

## Safbwynt y Pwyllgor

**109.** Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi addewid ôl-COVID gyda chyllid cysylltiedig, ac mae'r Pwyllgor yn croesawu hyn, ynghyd â'r manylion sydd ar gael ynghylch y cymorth economaidd yn ystod y cyfnod atal byr. Manylir ar yr arian sy'n gysylltiedig â'r addewid yn y gyllideb atodol nesaf, a ddisgwylir ym mis Chwefror 2021.

**110.** Cyhoeddwyd yr estyniad i gynllun ffyrlo'r Deyrnas Unedig ar ôl i'r Pwyllgor gymryd tystiolaeth gan y Gweinidog ar y Gyllideb Atodol hon. Roedd yr aelodau'n pryderu ar y pryd na fyddai'r un lefel o gymorth ar gael i bobl yng Nghymru, pe bai Llywodraeth Cymru yn penderfynu gweithredu cyfyngiadau symud ar adeg wahanol i Loegr. Gobaith y Pwyllgor yw bod yr wybodaeth sy'n cael ei cheisio gan y Gweinidog ynghylch cyllid canlyniadol a allai gysylltu â'r cyfyngiadau symud presennol yn Lloegr yn cael ei darparu'n brydlon ac yn ddigon eglur.

**111.** Mae'r pandemig yn anrhagweladwy ac mae'r Pwyllgor yn cefnogi'r egwyddor bod cyllid wrth gefn ar gael i ymateb i gyfnodau pellach o gyfyngiadau symud neu

[61] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod Drafft y Trafodion, 2 Tachwedd 2020, paragraff 215
[62] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod Drafft y Trafodion, 2 Tachwedd 2020, paragraff 220
[63] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod Drafft y Trafodion, 2 Tachwedd 2020, paragraff 228
[64] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod Drafft y Trafodion, 2 Tachwedd 2020, paragraff 222
[65] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod Drafft y Trafodion, 2 Tachwedd 2020, paragraff 228

gyfnodau atal byr. Fodd bynnag, mae diffyg eglurder o ran sut bydd yr adnoddau heb eu dyrannu, sy'n werth £1.6 biliwn, yn cael eu defnyddio. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod y gallai blaenoriaethau newid ac y gallai Llywodraeth Cymru dderbyn cyllid pellach gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig, a bydd trafodaethau'n parhau o fewn Llywodraeth Cymru ar y blaenoriaethau ar gyfer gweddill y flwyddyn ariannol hon. Fodd bynnag, o ystyried sylwadau'r Gweinidog am dryloywder ynghylch gwarantau Llywodraeth y Deyrnas Unedig, mae gan Lywodraeth Cymru gyfle i arwain drwy esiampl, gan ddarparu cymaint â phosibl o wybodaeth am unrhyw gyllid a glustnodwyd yng nghronfa wrth gefn COVID-19 i'r Senedd a rhanddeiliaid.

**112.** Er ei fod yn cydnabod effaith COVID-19 o ran newid blaenoriaethau, mae'r Pwyllgor yn dal i bryderu mai ychydig o ymgysylltiad â Llywodraeth y Deyrnas Unedig sydd ar gyfnod pontio'r Undeb Ewropeaidd, yn benodol mewn perthynas â'r Gronfa Ffyniant Gyffredin a chronfa bontio'r Undeb Ewropeaidd. Mae'r Gweinidog wedi ysgrifennu at y Canghellor ynghylch yr olaf o'r rhain, a byddai'r Aelodau'n croesawu diweddariad ar hyn. Byddai'r Pwyllgor hefyd yn croesawu unrhyw wybodaeth bellach am gyllid mae Llywodraeth Cymru yn ei glustnodi ar gyfer diwedd cyfnod pontio'r Undeb Ewropeaidd a'r mathau o gymorth y gallai ystyried eu darparu.

**Argymhelliad 8.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn darparu gwybodaeth bellach am sut mae ei chronfeydd wrth gefn wedi eu 'clustnodi' – ar y lleiaf, yr hyn a ddyrannwyd i gronfa wrth gefn COVID-19 a'r hyn sydd ar gael ar gyfer diwedd cyfnod pontio'r Undeb Ewropeaidd.

**Argymhelliad 9.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd yn rhoi diweddariad i'r Pwyllgor ar ei ohebiaeth â Changhellor Trysorlys y Deyrnas Unedig ynghylch ei ofynion o ran materion yr Undeb Ewropeaidd.

**Argymhelliad 10.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gweithio ar frys i ymgysylltu â Llywodraeth y Deyrnas Unedig a llywodraethau datganoledig eraill i gael manylion am y Gronfa Ffyniant Gyffredin a chyhoeddi'r manylion hynny.

# 7. Cyllideb 2021-22

**113.** Yn y Cyfarfod Llawn ar 6 Hydref 2020, nododd y Gweinidog fod penderfyniad y Canghellor i ganslo cyllideb yr hydref y Deyrnas Unedig, yr ansicrwydd ynghylch adolygiad gwariant cynhwysfawr y Deyrnas Unedig a'r diffyg gwybodaeth am arian yn lle cyllid yr Undeb Ewropeaidd yn gwneud tasg Llywodraeth Cymru yn 'anoddach'.

**114.** Cyhoeddodd y Gweinidog y byddai Cyllideb Ddrafft ar gyfer 2021-22 yn cael ei chyhoeddi ar 8 Rhagfyr 2020 a Chyllideb Derfynol ar 2 Mawrth 2021. Fodd bynnag, dywedodd hefyd:

> "…mae'r amserlen hon yn dibynnu'n drwm ar bryd y cawn ni fanylion ein setliad ar gyfer y blynyddoedd i ddod a chasgliad yr adolygiad o wariant [y Deyrnas Unedig]…"[66]

**115.** Ar 21 Hydref 2020, cyhoeddodd Llywodraeth y Deyrnas Unedig y byddai'n ceisio cwblhau adolygiad gwariant am gyfnod o flwyddyn tua diwedd Tachwedd 2020. Darparodd Llywodraeth y Deyrnas Unedig ei rhesymeg dros ystyried adolygiad blwyddyn yn unig, gan nodi:

> "While the government would have liked to outline plans for the rest of this Parliament, the right thing today is to focus entirely on the response to Covid-19 and supporting jobs - that's what the public would expect."[67]

**116.** Esboniodd y swyddog a ddaeth gyda'r Gweinidog i'r cyfarfod fod yr ansicrwydd ynghylch cyllid y flwyddyn nesaf yn 'gwaethygu'r heriau' o ran cynllunio ar gyfer gweddill eleni a'r flwyddyn nesaf.[68]

**117.** Cadarnhaodd y Gweinidog hefyd fod yr adolygiad gwariant am flwyddyn yn golygu nad oes sicrwydd hirdymor o gyllid ar gyfer rhanddeiliaid, ac nad yw hyn yn cymharu'n dda â'r sefyllfa yn Lloegr. "The UK Government has said that it plans to give health and schools and, obviously, on the capital side, infrastructure investments a kind of longer profile for spend."[69]

---

[66] Cofnod y Trafodion, 6 Hydref 2020, paragraff 257

[67] Llywodraeth y Deyrnas Unedig: Spending Review to conclude late November, 21 Hydref 2020

[68] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod Drafft y Trafodion, 2 Tachwedd 2020, paragraff 128

[69] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod Drafft y Trafodion, 2 Tachwedd 2020, paragraff 210

**118.** Yn dilyn y cyhoeddiad gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig ar yr adolygiad gwariant am gyfnod o flwyddyn, darparodd y Gweinidog amserlen ddiwygiedig ar 29 Hydref 2020 yn cadarnhau bod Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi ei chyllideb ddrafft ar 21 Rhagfyr.[70]

## Safbwynt y Pwyllgor

**119.** Mae'n amlwg y bydd yr adolygiad gwariant hwyr a'r setliad am flwyddyn yn unig yn peri problemau i Lywodraeth Cymru, o ran cynllunio cyllideb 2021-22; ei chynlluniau hirdymor ei hun; ac o ran y sicrwydd mae'n gallu ei ddarparu i sefydliadau eraill ynghylch eu cyllid hirdymor. Mae sgil effaith oedi i'r broses pennu cyllideb hefyd yn creu problem o ran gallu'r Senedd i graffu ar y gyllideb ddrafft, a fydd yn debygol o gynnwys penderfyniadau sylweddol ynghylch y pandemig a'r cyllid/gwariant yn y dyfodol. Mae hyn yn amlwg yn siomedig ac mae'r posibilrwydd o lefel is o graffu ar gyllideb ddrafft mor bwysig yn peri pryder.

**120.** Mae'r Pwyllgor o'r farn bod diffyg sicrwydd gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig yn peri problemau o ran cynllunio hirdymor mewn 'cyfnodau arferol', ond wrth ddelio â phandemig byd-eang a Brexit mae potensial i'r diffyg sicrwydd achosi problemau sylweddol. Mae'r broblem y mae hyn yn ei pheri i Lywodraeth Cymru yn un mater, ond mae'r broblem i randdeiliaid a'r sefydliadau hynny a gyllidir gan Lywodraeth Cymru sy'n darparu gwasanaethau sy'n hanfodol i'r ymateb i'r pandemig yn arbennig o bryderus. Dylai Llywodraeth Cymru ddefnyddio'r holl wybodaeth sydd ar gael iddi i geisio cyflwyno strategaeth gyllido tymor hwy ar gyfer y cyrff y mae'n eu cyllido lle bo hynny'n bosibl.

**Casgliad 2.** Mae'r Pwyllgor yn siomedig ynglŷn â'r bwriad i gyhoeddi Cyllideb ddrafft 2021-22 yn hwyr. Mae hyn yn golygu y bydd amser ar gyfer craffu yn gyfyngedig, ac mae hyn yn arbennig o siomedig o ystyried mai hon yw cyllideb derfynol tymor y Senedd hon ac y bydd yn ymdrin ag effaith y pandemig a chyfnod pontio'r Undeb Ewropeaidd.

**Casgliad 3.** Mae'r Pwyllgor yn pryderu y bydd y sefydliadau hynny a gyllidir gan Lywodraeth Cymru, ac sy'n darparu gwasanaethau sy'n hanfodol i'r ymateb i'r pandemig, yn cael syniad tymor byr yn unig ynghylch eu cyllid yng Nghyllideb ddrafft 2021-22. Mae'r Pwyllgor o'r farn y dylai Llywodraeth Cymru ddefnyddio'r holl wybodaeth sydd ar gael er mwyn darparu sicrwydd hirdymor.

**Argymhelliad 11.** Er gwaethaf y materion posibl sy'n codi o'r adolygiad gwariant, mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gweithio i ddarparu

[70] Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, Llythyr, 29 Hydref 2020

eglurder i randdeiliaid ynghylch cyllidebau y tu hwnt i flwyddyn, yn ei chyllideb ddrafft ar gyfer 2021-22.